# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

Amser: 09.02 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3860

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Chris Tudor-Smith, Llywodraeth Cymru<br>Rhian Williams, Llywodraeth Cymru<br>Chris Brereton, Llywodraeth Cymru<br>Sue Bowker, Llywodraeth Cymru<br>Dr Olwen Williams, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr<br>Suzanne Cass, Action on Smoking and Health (ASH) Wales Cymru |

| | |
|---|---|
| | Dr Steven Macey, Action on Smoking and Health (ASH) Wales Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 833KB) Gweld fel HTML (335KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhun ap Iorwerth AC.

## 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 7 - y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog a'i swyddogion.
2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r hyn a ganlyn:

- nodyn yn rhoi manylion hawl ymarferwyr i wrthod tyllu person sy'n iau na 18 oed mewn man personol pan fo cyfyngiadau cyfreithiol ond yn gymwys ar gyfer y rheiny sy'n iau nag 16 oed, ynghyd â'r goblygiadau posibl i ymarferwyr o'r fath, boed yn oblygiadau cyfreithiol neu oblygiadau eraill;
- manylion pellach ynghylch y troseddau perthnasol a amlinellwyd yn adran 63(3) y Bil, a'r diffyg yn y Bil fel y mae ar hyn o bryd o ran crybwyll troseddau rhyw;
- copi o'i llythyr at BMA Cymru, a anfonwyd ym mis Rhagfyr 2016, a oedd yn mynd i'r afael â'u pryderon ynghylch gwasanaethau fferyllol ac Asesiadau Anghenion Fferyllol.

## 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 8 - Coleg Brenhinol y Meddygon

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Meddygon.

## 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 9 - ASH Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o ASH Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16

5.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16.

### 5.2 Gohebiaeth gan Rwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc ynghylch sgrinio rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn plant

5.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Rwydwaith Diabetes Cymru i Blant a Phobl Ifanc ynghylch sgrinio rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn plant

### 5.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llesiant a Chwaraeon ynghylch gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

5.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llesiant a Chwaraeon ynghylch gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

### 5.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghylch sefydlu Addysg Iechyd Cymru

5.4a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynghylch sefydlu Addysg Iechyd Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 7, 8 a 9 – ystyried y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog, Coleg Brenhinol y Ffisigwyr ac ASH Cymru.

## 8 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - ystyried cwmpas yr ymchwiliad a'r dull gweithredu

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl terfynol ar gyfer ei ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd, a chytunodd i ymgynghori'n eang.